

At: Aelodau'r Pwyllgor Archwilio
Cymunedau

Dyddiad: 9 Mai 2014

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU, DYDD IAU, 15 MAI 2014** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, TY RUSSELL, FFORDD CHURTON, Y RHYL.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd

AGENDA

RHAN 1 - ESTYNNIR GWAHODDIAD I'R WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU'R RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 PENODI IS-GADEIRYDD

Penodi Is-Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2014/15.

3 DATGAN CYSYLLTIAD

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

4 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater bryd yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

5 COFNODION (Tudalennau 5 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 3 Ebrill 2014 (copi ynghlwm).

6 CEFNOGAETH GYSYLLTIEDIG Â THAI AR GYFER POBL HŶN YN SIR DDINBYCH (Tudalennau 11 - 18)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Cefnogi a Gofal Tai (copi ynghlwm) yn amlinellu'r newidiadau a wneir i Wasanaeth Warden Tai Gwarchod y Cyngor.

9.35 a.m. – 10.05 a.m.

7 RHAGLEN AILWAMPIO STOC TAI'R CYNGOR (Tudalennau 19 - 32)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol (copi ynghlwm) yn manylu'r dull i ddod â'r Stoc Tai hyd at Safon Ansawdd Tai Cymru, ac yn amlinellu materion a wynebwyd a'r gwersi a ddysgwyd o'r profiad.

10.05 a.m. – 10.35 a.m.

8 STRATEGAETH CYFATHREBU CORFFORAETHOL (Tudalennau 33 - 38)

Ystyried adroddiad gan yr Arweinydd Tîm - Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrch yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed gyda Chynllun Gweithredu'r Strategaeth Gyfathrebu ac amcanion ar gyfer y deuddeg mis nesaf, a chyflwyno'r protocol drafft ar gyfathrebu gydag aelodau.

10.35 a.m. – 11.05 a.m.

~~~~~ **EGWYL** ~~~~~

**9 GWELL RHEOLEIDDIO SAFLEOEDD CARAFANNAU** (Tudalennau 39 - 50)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Rheoli Datblygu (copi ynghlwm) yn rhoi diweddariad ar ddeddfwriaeth berthnasol newydd Llywodraeth Cymru ar reoleiddio safleoedd carafannau a'i oblygiadau i'r Cyngor.

**11.15 a.m. – 11.45 a.m.**

**10 RHAGLEN Y RHYL YN SYMUD YMLAEN – ADRODDIAD CHWARTEROL** (Tudalennau 51 - 74)

Ystyried adroddiad gan y Reolwr Datblygu Busnes Economaidd (copi ynghlwm), sy'n rhoi diweddariad ar Raglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen gan gynnwys cynnydd a chyflawniadau cyflwyno ei ganlyniadau rhagweledig.

**11.45 a.m. – 12.15 p.m.**

**11 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 75 - 90)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor a diweddaru'r Aelodau ar faterion perthnasol.

**12.15 p.m. – 12.30 p.m.**

## **12 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU**

Derbyn unrhyw ddiweddariad gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar amrywiol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

**12.30 p.m.**

## **RHAN 2 - EITEMAU CYFRINACHOL**

Dim eitemau.

## **AELODAETH**

### **Y Cynghorwyr**

Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd)

Carys Guy (Is-Gadeirydd)

James Davies  
Peter Arnold Evans  
Rhys Hughes  
Win Mullen-James  
Bob Murray

Joe Welch  
Cefyn Williams  
Cheryl Williams  
Huw Williams

## **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN, Dydd Iau, 3 Ebrill 2014 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr James Davies, Peter Arnold Evans, Carys Guy (Is-Gadeirydd), Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Win Mullen-James, Bob Murray, Joe Welch, Cefyn Williams a/ac Cheryl Williams

Mynychodd yr Aelod Arweiniol y Cyngorwyr Huw Ll Jones ar gais y Pwyllgor.

Mynychodd y Cyngorwyr Meirick Ll Davies fel sylwedydd

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Rheolwr Datblygiad Economaidd a Busnes (TB), Rheolwr Risg ac Asedau (TT) Cydlynnydd Archwilio (RE), a/ac Gweinyddwr Pwyllgor (SLW)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorwyr Rhys Hughes a/ac Huw Williams

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb hefyd oddi wrth y Cyngorwyr Hugh Evans a David Smith

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd cysylltiad personol na chysylltiadau sy'n rhagfarnu gan unrhyw un.

## 3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ddydd Iau 6 Mawrth 2014.

Materion yn Codi:

- Llwybrau diogelach – Darllenodd y Cydlynnydd Archwilio lythyr i'r Aelodau a anfonwyd gan Weinidog Economi, Gwyddoniaeth a Chludiant.
- Kingdom – gwisgo'r wisg. Cafwyd ymateb gan Swyddog Gorfodi Diogelwch Cymunedol:

- “Mae’r amodau sy’n ymwneud â gwisgo gwisg benodol yn nodi oni bai bod cyfarwyddyd penodol, nid oes yn rhaid i’r swyddogion wisgo gwisg benodol. Y cyfarwyddiadau mewn perthynas â’r Rhyl yw y bydd y swyddogion yn gwisgo’r wisg sy’n cael ei darparu gan Kingdom Security yng nghanol y dref sef yr ardal siopa.

Mae’r cyfarwyddyd yr un fath ar gyfer Prestatyn nes yr hysbysir yn wahanol. Os gwelir y swyddogion yng nghanol y dref heb wisg benodol, yna bydd rheswm penodol y gellir ei egluro.”

**PENDERFYNWYD** bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau 6 Mawrth 2014 yn cael eu derbyn a’u cymeradwyo fel cofnod cywir.

## 5 CYNLLUNIAU TREF AC ARDAL (ADRODDIAD CHWARTEROL)

Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu Economaidd a Busnes adroddiad Cynlluniau Tref ac Ardal (a gylchredwyd yn flaenorol) i fonitro perfformiad y Cyngor wrth ddarparu Cynlluniau Tref a’r buddiannau ar gyfer y trefi a’r cymunedau cyfagos.

Yng nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2014, roedd yr elfennau canlynol wedi’u mabwysiadu:

- Cynllun Tref ac Ardal Dinbych
- Cynllun Tref ac Ardal Rhuddlan
- Cynllun Tref ac Ardal y Rhyl

Roedd Cynllun Tref ac Ardal Bodolwyddan yn parhau’n weddill gan ei fod yn ychwanegiad hwyr, ond dylai fod ar gael erbyn dechrau’r haf.

Cafwyd trafodaeth bellach a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Holodd yr Aelodau os oedd unrhyw hyblygrwydd o fewn y cynlluniau i gynnwys newidiadau ym mlaenoriaethau’r cymunedau, ac os oedd fformiwla safonol wedi’i defnyddio i gyfrifo dyraniad cyllid ar gyfer pob cynllun.
- Teimla’r Aelodau ei bod yn hanfodol bod pob Cynllun Tref ac Ardal yn amlygu’r weledigaeth hir dymor ar gyfer pob ardal.
- Cynghorodd y Swyddogion mai penderfyniad pob Grŵp Ardal Aelodau (GAA) fyddai penderfynu os oes modd newid blaenoriaeth neu ddiwygio blaenoriaeth yn eu cynllun ac os oes modd ariannu unrhyw brosiect newydd/diwygiedig.
- Yn dilyn cyfarfod y Tîm Gweithredol Corfforaethol, gofynnwyd i gael adolygu effaith Cynlluniau Tref ac Ardal ar ddechrau mis Mai. Roedd Rheolwr Rhaglen, Uchelgais Economaidd a Chymunedol a Phennaeth Archwilio Mewnol am gynnal yr adolygiad. Byddai’r adolygiad yn archwilio materion megis fformiwla cyllid, natur cynnwys y cynlluniau cyfredol ac os byddai pob cynllun yn cael eu tanategu gan weledigaeth hir dymor ar gyfer pob tref ac ardal gyfagos.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Uchelgais Economaidd a Chymunedol y byddai’n darparu Cylch Gorchwyl ar gyfer yr adolygiad i’r Aelodau.

Cynigodd Aelod Arweiniol Hamdden, Ieuenctid, Twristiaeth a Datblygu Gwledig i ymweld ag unrhyw Grŵp Ardal Aelodau (GAA) neu ardaloedd i gynorthwyo gydag unrhyw anawsterau a gafwyd oherwydd y cynlluniau.

**PENDERFYNWYD:**

- (i) *Yn amodol ar yr arsylwadau uchod, i nodi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn wrth ddarparu'r Cynlluniau Tref ac Ardal.*
- (ii) *Ystyried canfyddiadau adolygiad y Cynlluniau Tref ac Ardal yng Nghyfarfod Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar 26 Mehefin 2014.*

**6 CYSYNIAD DYLUNIO MAN GWYRDD - WRHIP**

Cyflwynodd Rheolwr Datblygu Busnes ac Economi Gysyniad Dylunio Mannau Gwyrdd – adroddiad WRHIP (a gylchredwyd yn flaenorol) i ddarparu manylion i'r Aelodau o'r man Gwyrdd sy'n rhan allweddol o Brosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl (WRHIP) a goblygiadau posibl ar gyfer cynnal a chadw i'r dyfodol a ffynonellau cyllid posibl.

Hysbysodd Rheolwr Datblygu Busnes ac Economi fod yr WRHIP yn brosiect mawr wedi'i arwain gan Lywodraeth Cymru ac yn waith partneriaeth rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Chymdeithas Tai Pennaf.

Cafwyd trafodaeth bellach a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Pwysleisiwyd, er bod prosiect man gwyrdd wedi bod yn rhan allweddol o'r gwelliannau yng Ngorllewin y Rhyl a Rhaglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen, cyfleuster cymunedol/cymdogaeth ydyw nid atyniad i dwristiaid.
- Y rhesymeg ar gyfer darparu man gwyrdd yn yr ardal oedd gwneud y lle'n fwy deniadol i deuluoedd. Roedd gwaith yn cael ei gynnal i drawsnewid y tai yn yr ardal i fod yn gymysgedd, yn bennaf cynyddu nifer y perchnogion sy'n breswylwyr a llety rhent preifat i deuluoedd.
- Cadarnhaodd y Swyddogion y bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda Chyfoeth Naturiol Cymru o ran unrhyw berygl o lifogydd yn y datblygiadau tai arfaethedig cyn cyflwyno unrhyw geisiadau cynllunio. Holodd y Cynghorydd Win Mullen-James os oedd yn ddichonadwy cael tanc dal dŵr tanddaearol o dan y parc i ddal unrhyw ddŵr ychwanegol a lliniaru'r risg o lifogydd difrifol. Cynghorodd y Swyddogion y dylai cwblhau Cam 3 gwaith Amddiffyn yr Arfordir ymdrin ag unrhyw risg o lifogydd i'r parc ei hunan.
- Gofynnwyd cwestiynau os cafwyd cytundeb ynglŷn â lleoliad storio priodol ar gyfer biniau olwynion y preswylwyr. Cadarnhaodd y Rheolwr Economaidd a Busnes y byddai'n gwirio'r mater ac yn hysbysu'r Pwyllgor o hynny.
- Darparodd y Rheolwr Datblygu Economaidd a Busnes fanylion o drigolion, sydd â'u cartrefi wedi bod yn destun Gorchmynion Prynu Gorfodol ar gyfer y pwrpas o ddatblygu ardal man gwyrdd, wedi symud. Roedd 122 wedi'u symud, ac o'r rhain, roedd 97 wedi dewis aros yn y Rhyl. Roedd y rhai oedd wedi symud i fan arall wedi gwneud hynny o ddewis ac roeddent yn byw mewn llety o ansawdd gwell yn awr.

- Gofynnwyd cwestiynau os oedd unedau busnes bychain ar gael ger ardal y man gwyrdd. Cynghorodd y Swyddogion fod canlyniadau ymgynghoriad gyda'r trigolion lleol wedi nodi'n gryf eu bod yn dymuno gweld y math o barc a gynigwyd yn yr adroddiad, lle y gallai teuluoedd dreulio amser gyda'i gilydd. Roedd ffrydiau gwaith Rhaglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen yn ceisio ymdrin â materion cyflogaeth.
- Mewn ymateb i bryderon a godwyd ynglŷn â llythyrau negyddol a gyhoeddwyd yn y wasg leol ynglŷn â'r gwaith sydd ar y gweill yng Ngorllewin y Rhyl, cynghorodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol y gwnaed penderfyniad i beidio ag ymateb yn uniongyrchol i'r llythyrau. Fodd bynnag, roedd y Cyngor yn gweithio gyda'r wasg, y Daily Post yn bennaf, mewn ymgais i geisio cyhoeddi storïau newyddion positif ynglŷn â'r llwyddiannau a'r cynnydd a wnaed yn y Rhyl. Teimlwyd, yn hir dymor, byddai'r ymagwedd hon yn creu buddiannau ar gyfer y Cyngor.

**PENDERFYNWYD** yn amodol ar yr arsylwadau uchod, nodi'r cynnydd a wnaed i ddarparu Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl ac yn bennaf elfen man gwyrdd.

**Ar y pwynt hwn (10.20 a.m.) cafwyd egwyl o 10 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 10.30 a.m.**

Oherwydd bod y cyfarfod yn mynd rhagddo'n gynt na'r amseroedd a ddisgwyliwyd, cytunodd y Cadeirydd i amrywio'r eitemau oedd yn weddill ar y Rhaglen. Gan nad oedd disgwyl i gynrychiolydd Priffyrdd, ar gyfer eitem 7, (Polisi a Rhaglen Torri Gwair Ymy Priffyrdd 2014/15) gyrraedd cyn 11.00am cytunwyd i drafod Rhaglen Waith Archwilio (Eitem 8) ac yna Adborth gan Gynrychiolwyr Pwyllgor (Eitem 9).

## **7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Cyflwynwyd adroddiad gan Gydlynnydd Archwilio (a gylchredwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor a darparu diweddariad ynglŷn â materion perthnasol, Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol drafft (atodiad 1), Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet (Atodiad 2) a chynnydd o ran Penderfyniadau'r Pwyllgor (Atodiad 3).

Cytunodd yr Aelodau ar y diwygiadau canlynol i'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol

**(i) 15 Mai 2014**

Roedd yr Adroddiad Cyfathrebu wedi'i ohirio tan 15 Mai 2014 oherwydd pwysau gwaith.

**(ii) 26 Mehefin 2014**

Roedd adolygiad Cynlluniau Tref ac Ardal yn cael eu hychwanegu at Raglen 26 Mehefin 2014.

Gofynnwyd i'r Aelodau Arweiniol fod yn bresennol yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** fod y Pwyllgor yn cymeradwyo Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Archwilio Cymunedau yn amodol ar y newidiadau uchod.

## **8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR**

Mynegodd y Cynghorydd Joe Welch fater, ar y pwynt hwn, o ran Herio Gwasanaethau. Os nad oedd aelodau Archwilio yn gallu mynychu Her Gwasanaeth yna gofynnwyd bod aelod arall yn mynychu ar eu rhan.

Cytunwyd ar hyn gan bawb oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

**Ar y pwynt hwn (10.40 a.m.) cafwyd egwyl o 10 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 10.50am.**

## **9 POLISI A RHAGLEN TORRI GWAIR YMYL PRIFFORDD 2014/2015**

Cyflwynodd y Rheolwr Risg ac Asedau, Polisi a Rhaglen Torri Gwair Ymyl Priffyrdd 2014/15 (a gylchredwyd yn flaenorol) i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â'r paratodau i raglen torri gwair priffyrdd eleni gan gynnwys asesiad o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda'r budd-ddeiliaid ers tymor yr hydref 2013.

Cafwyd trafodaeth bellach a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Hysbyswyd yr Aelodau fod rhaglen torri gwair ymyl priffyrdd ar gyfer y tymor hwn wedi'i drefnu i ddechrau ar 12 Mai 2014. Fodd bynnag, roedd hyblygrwydd yn y cytundeb i ddechrau'r rhaglen wythnos yn gynt os yw'r tywydd cynnes yn parhau.
- Cynghorodd Aelod Arweiniol Hamdden, Twristiaeth Ieuencid a Datblygu Gwledig fod cyfres o ymweliadau i Gynghorau Tref a Chymuned i egluro manylion torri 'bioamrywiaeth' wedi dechrau. Fodd bynnag, roeddent wedi'u gohirio yn awr tan yr hydref gan y byddai'n rhy hwyr i newid yr amserlen ar gyfer 2014/15 i gynnwys unrhyw newidiadau i anghenion yr ardaloedd unigol yn awr. Cynghorodd yr Aelodau hefyd y byddai'n fodlon mynychu cynghorau tref a chymuned neu sefydliadau lleol eraill i egluro rhaglen torri gwair ac opsiwn bioamrywiaeth.
- Cynghorodd y Rheolwr Risg ac Asedau y byddai rheoli ymylon trefol a gwledig yn awr yn cael eu trin gan yr un gwasanaeth, ac felly ni ddylai anghysondeb hanesyddol ar gyrion trefi fodoli bellach. Dylid datrys unrhyw broblemau yn y dyfodol ar unwaith yn awr.
- Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau, amlinellodd y Rheolwr Risg ac Asedau sut y rheolir y contractwyr allanol ac fe nododd mai 2014/15 fyddai blwyddyn olaf y contract. Byddai contract torri gwair priffyrdd y tymor nesaf yn destun proses dendro. Awgrymwyd mewn ardaloedd trefol, megis y Rhyl, gellir gofyn i wirfoddolwyr a grwpiau cymunedol ymgymryd ag ychydig o'r gwaith. Gyda hyn mewn golwg, gofynnodd y Cynghorydd Win Mullen-James am gael copi o'r amserlen cynnal a chadw ar gyfer y Rhyl.
- Ymatebodd y Rheolwr Risg ac Asedau i'r pryderon dilynol a godwyd oherwydd bod canghennau coed yn gorchuddio arwyddion ffyrdd.

- Mynegwyd pryderon ynglŷn ag ardaloedd gwair harddwch yn cael eu torri yn ystod cyfnodau o law trwm a sbwriel ar yr ymylon a gofynnwyd iddynt ymdrin â'r materion hyn. Cyngorodd y Rheolwr Risg ac Asedau fod yr amserlen casglu sbwriel yn cyd-fynd â'r amserlen torri gwair ymylon ond oherwydd natur amrywiol y ddau fath o waith, mae'n debyg y bydd modd gweld sbwriel am gryn dipyn o amser ar ôl torri'r gwair.
- Cadarnhaodd y Rheolwr Risg ac Asedau y byddai gwair ar gyffordd a chorneli dall yn cael eu torri neu eu strimio. Gofynnodd y Rheolwr Risg ac Asedau i'r Aelodau roi gwybod i'r Adran Gwasanaeth Cwsmer ar unwaith os ydynt yn canfod unrhyw ardaloedd peryglus nad oedd wedi'u torri. Yna byddai'r gwasanaeth yn ymdrin â'r mater ac yn eu cynnwys yn eu hamserlenni yn y dyfodol.
- Mewn ymateb i gwestiwn yn holi os mai'r Cyngorau Tref a Chymuned oedd y fforwm mwyaf priodol i'w ymgynghori ynglŷn ag amserlenni torri gwair ymylon priffyrdd, cytunodd aelodau'r Pwyllgor a'r swyddogion mai nhw oedd llais y cymunedau lleol.

***PENDERFYNWYD*** yn amodol ar yr arsylwadau uchod, i gytuno ar y paratodau ar gyfer tymor 2014 a chadarnhau fod pryderon ynglŷn ag elfennau bioamrywiaeth y cynllun torri wedi'u hasesu a'u hymgorffori'n briodol yn y rhaglen.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.10 a.m.**

|                            |                                                                                                                    |
|----------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>      | <b>Pwyllgor Archwilio Cymunedau</b>                                                                                |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b> | <b>15 Mai 2014</b>                                                                                                 |
| <b>Swyddog Arweiniol:</b>  | <b>Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol</b>                                                                           |
| <b>Aelodau Arweiniol:</b>  | <b>Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Chymunedau ac Aelod Arweiniol Gofal Cymunedol (Gwasanaethau Oedolion a Phlant)</b> |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b> | <b>Rheolwr Gofal a Chefnogaeth Tai</b>                                                                             |
| <b>Teitl:</b>              | <b>Cefnogaeth sy'n gysylltiedig â Thai ar gyfer Pobl Hŷn yn Sir Ddinbych</b>                                       |

---

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i Wasanaeth Wardeniaid Tai Gwarchod y Cyngor fel canlyniad i newidiadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn dilyn Adolygiad Aylwood yn 2010 a chyflwyno Canllawiau Grant Cefnogi Pobl diwygiedig yn 2012. Mae Llywodraeth Cymru wedi'i gwneud yn glir y dylai Cefnogaeth Tai Gwarchod a ariannwyd gan Cefnogi Pobl fod yn rhoi sylw i ail-alluogi ac y dylai fod ar gael i bawb yn y gymuned waeth ble maent yn byw.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Gofynnwyd am yr Adroddiad gan Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi, a bod yr aelodau yn rhoi sylwadau ac yn cefnogi'r dull gweithredu.

## **4. Manylion am yr adroddiad.**

Arweiniodd yr adolygiad o'r Rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru at wneud yr argymhelliad canlynol mewn perthynas â gwasanaethau Pobl Hŷn.

*"Argymhellir y dylai'r meini prawf cymhwyso ar gyfer pobl hŷn sy'n derbyn arian Cefnogi Pobl fod yn seiliedig ar angen yn hytrach nag oedran neu ddaliadaeth" (Aylward, 2010).*

Ym mis Awst 2012 cyflwynwyd Canllawiau'r Rhaglen Cefnogi Pobl i hwyluso gweithredu ar yr argymhellion a wnaed gan Syr Mansel Aylward yn ei adroddiad.

Roedd y "Canllawiau" hyn yn datgan:

- Rhaid i ddarpariaeth gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai fod yn seiliedig ar anghenion sydd wedi eu dynodi neu eu hasesu, rhaid i'r ddarpariaeth hefyd fod yn hyblyg ac yn canolbwyntio ar y person
- Dylai gwasanaethau Cefnogi Pobl fod yn alluogol ac yn datblygu annibyniaeth yr unigolyn
- Rhaid i'r pecyn cymorth fod yn seiliedig ar gynlluniau cymorth ysgrifenedig sy'n cynnwys asesiadau risg a mesurau rheoli risg
- Mae angen datganiad o feini prawf cymhwyso ar gyfer derbyn gwasanaeth
- Rhaid i gymorth ganolbwyntio ar ganlyniadau gyda nodau cyraeddadwy a rhaid iddynt ddilyn Fframwaith Canlyniadau Cymru Gyfan
- Rhaid i wasanaethau sy'n derbyn cyllid Cefnogi Pobl adrodd i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol

Gwnaed penderfyniad strategol drwy Raglen Cefnogi Pobl y Cyngor i fabwysiadu argymhellion Syr Aylward gan eu bod yn cyd-fynd ag agenda ail-alluogi'r Cyngor ac yn cyd-fynd â Chynllun MAWR y Cyngor (Canlyniad1: Mae pobl hŷn yn byw bywydau annibynnol a llawn). Dylid nodi, er mai'r Gwasanaethau Tai yw'r landlord a darparwr y gefnogaeth yn nhai gwarchod y Cyngor, mae'r gefnogaeth yn cael ei chomisiynu gan y Gwasanaethau Oedolion ac yn y bôn, darparwr gwasanaeth mewnol yw'r Gwasanaethau Tai. O'r herwydd, nid y Gwasanaethau Tai oedd yr adran a wnaeth y penderfyniad i newid sut y byddai cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn cael ei ddarparu ar gyfer pobl hŷn; ond roeddent yn deall yn llawn ac yn cytuno â'r rhesymau a'r rhesymeg sylfaenol dros yr angen i newid y Gwasanaeth Wardeniaid Tai Gwarchod

Yn draddodiadol, mae'r gwasanaeth Wardeiniaid Tai Gwarchod wedi bod â dull gweithredu a oedd yn gyson i bawb ac roedd tenantiaid tai gwarchod yn derbyn gwasanaeth safonol a oedd yn cyfuno swyddogaethau rheoli tai a chymorth, p'un ai bod angen wedi ei ddynodi ai peidio – e.e. bydda'r Warden yn cysylltu â phob un o denantiaid y tai gwarchod bob bore.

Teimlid bod y dull hwn yn meithrin dibyniaeth yn hytrach nag annibyniaeth - gwneud ar ran rhywun yn hytrach na gwneud ar y cyd â nhw.

Dim ond i bobl a oedd yn byw mewn llety gwarchod o eiddo CSDd yr oedd y "gwasanaeth traddodiadol" ar gael ac roedd yn eithrio pobl a oedd yn byw mewn llety wedi eu rhentu oddi wrth landlordiaid preifat neu gymdeithasau tai, neu bobl a oedd yn berchen-feddianwyr a allai elwa o dderbyn cymorth sy'n gysylltiedig â thai i ddiwallu anghenion a oedd wedi eu dynodi a thrwy hynny gadw eu hannibyniaeth.

Roedd y "gwasanaeth traddodiadol" yn aneffeithlon - yn aml byddai wardeiniaid yn darparu cymorth i bobl nad oedd ei angen ac mewn rhai achosion nad oeddent mewn gwirionedd yn dymuno ei gael.

At hynny, nid oedd yn integreiddio'n effeithiol gyda'r Gwasanaethau lechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac nid oedd yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r agenda ail-alluogi, er gwaethaf bod mewn sefyllfa dda i'w wneud hynny pe cawsai ei reoli'n wahanol.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae newid y Gwasanaeth Wardeniaid Tai Gwarchod i fod yn wasanaeth cefnogaeth yn ôl yr angen, sy'n niwtral o ran daliadaeth ac yn seiliedig ar anghenion yn cyfrannu'n uniongyrchol at Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles y Cyngor, sy'n rhan annatod o Gynllun MAWR y Cyngor (Canlyniad1: Mae pobl hŷn yn byw bywydau annibynnol a llawn). Mae'r newidiadau hyn hefyd yn cefnogi dull Cefnogi Annibyniaeth yn Sir Ddinbych y mae Gwasanaethau Oedolion Sir Ddinbych yn ei weithredu.

Bydd y newidiadau o ran sut y bydd cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn cael ei ddarparu i bobl hŷn yn golygu y bydd llawer o drigolion Sir Ddinbych yn gallu aros yn eu cartref eu hunain yn unol â'u dymuniadau a bydd hyn yn cyfrannu at eu lles ac at ansawdd eu bywyd. Nid symud i dai gwarchod yw dymuniad pob person hŷn sydd ag anghenion cymorth. Mae ambell berson hŷn yn byw mewn cymunedau y maent wedi byw ynddynt ers blynnyddoedd lawer ac mae ganddynt gysylltiadau cymdeithasol da ac maent wedi hen ymgartrefu yno ac felly nid ydynt yn dymuno symud oddi yno, fodd bynnag, mae diffyg cymorth priodol yn tanseilio hynny. Mae pobl hŷn eraill, sy'n berchen ar gartrefi cymedrol, sydd ddim yn dymuno symud i dai gwarchod er mwyn diwallu eu hanghenion cymorth gan y byddai hynny'n golygu y byddai'n rhaid iddynt ryddhau'r cyfalaf sydd ynghlwm â'u heiddo i'w galluogi i dalu rhent, ac mae hyn yn disbyddu'r etifeddiaeth ariannol y maent yn dymuno ei gadael i deulu pan fyddant farw.

Nid yw'r newidiadau'n golygu na fydd pobl hŷn sy'n dewis byw mewn llety gwarchod o eiddo Cyngor Sir Ddinbych yn cael cymorth i gynnal eu hannibyniaeth, ond yn hytrach, o dan y trefniadau newydd, os oes ganddynt anghenion cymorth, cânt eu bodloni mewn ffordd sy'n benodol iawn i anghenion yr unigolyn a bydd hyn wedi ei nodi o fewn Cynllun Cymorth, y gallant ddal y Gwasanaethau Tai fel y darparwr cefnogaeth yn atebol iddo.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd y newidiadau i sut y bydd pobl hŷn yn derbyn cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn niwtral o ran costau. Mae'r arian Cefnogi Pobl a fu'n ariannu Gwasanaeth Wardeniaid Tai Gwarchod CSDd yn cael ei drosglwyddo i'r gwasanaeth cymorth newydd a fydd yn cael ei ddarparu gan Wasanaethau Cymunedol a Thai, Cyngor Sir Ddinbych a adwaenir fel Cefnogi Byw'n Annibynnol.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r asesiad a wnaed o effaith y penderfyniad ar gydraddoldeb? Dylid cynnwys Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i'r adroddiad.**

Mae'r newidiadau i'r modd y bydd y cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn cael ei ddarparu ar gyfer pobl hŷn yn y dyfodol yn fwy cynhwysol na'r Gwasanaeth Wardeniaid Tai Gwarchod ac ni fydd yn gwahaniaethu yn erbyn nac yn effeithio'n andwyol ar bobl sy'n meddu ar y "nodweddion a ddiogelir" fel y cânt eu diffinio gan

Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei atodi fel Atodiad i'r adroddiad hwn.

## **8. Pa ymgynghori a wnaed gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Mae'r newidiadau hyn wedi cael eu hystyried yng nghyd-destun Cynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl (a elwid gynt yn 'Cynllun Gweithredol Cefnogi Pobl) ers 2009. Ymgynghorir ynglŷn â'r cynllun comisiynu lleol gyda budd-ddeiliaid, defnyddwyr gwasanaeth a'r pwyllgor craffu.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Dylai unrhyw gostau fod wedi eu cynnwys o fewn cyllidebau presennol ac felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol.

## **10. Beth yw'r risgiau ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risgiau canfyddedig o newid y ffordd y mae cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn cael ei ddarparu ar gyfer pobl hŷn. Yn hytrach, mae risgiau pe na wneir y newidiadau na fydd llawer o bobl hŷn sydd wedi dewis peidio â byw mewn tai gwarchod yn cael y cymorth ail-alluogi ataliol y mae arnynt ei angen i gynnal eu hannibyniaeth ac o ganlyniad byddai hynny'n cynyddu'r risg iddynt gael eu derbyn yn gynamserol neu'n amhriodol i'r ysbyty neu i gartref gofal nyrsio, cartref gofal preswyl neu sefydliadau tebyg eraill.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Erthygl 6.3.4(c) yng Nghyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau'r Pwyllgorau Archwilio mewn perthynas â'r materion sy'n cael eu hystyried yn yr adroddiad hwn.

### **Swyddog Cyswllt:**

Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol

Ffôn: 01824 712 955

## **Appendix**

# Housing Related Support for Older People in Denbighshire

24<sup>th</sup> April 2014

Equality Impact Assessment

# Housing Related Support for Older People in Denbighshire

**Contact:** John Sweeney, Housing and Community Development Services

**Updated:** 24<sup>th</sup> April 2014

## 1. What type of proposal / decision is being assessed?

A service review or re-organisation proposal

## 2. What is the purpose of this proposal / decision, and what change (to staff or the community) will occur as a result of its implementation?

The Sheltered Housing Warden Service is being decommissioned and replaced by a tenure neutral floating support service to be known as Supporting Independent Living (SIL). The purpose of this change is to bring on line a housing related support service that fits better with the Council's reablement agenda than the "Warden" service , provides better value for money and greater choice for the customer.

Older people with housing related support needs will not have to move into sheltered housing to have them met, rather the support service can come to them

The support will be needs lead, person centred and outcome focussed. As a consequence ServiceUsers will be able to "float" in and out of the Service over time in accordance with changing support needs. This will enable the Service's capacity to be used more efficiently and allow for more older people to receive support.

It is important to note that the changes are not a dilution of service delivery; but rather simply a different way of managing it. No DCC sheltered tenant who has assessed housing related support needs will be left without a support service, rather they will get targeted, tailored support specific to their individual level of need.

Staff employed as Sheltered Housing Wardens will be redeployed into SIL as Accommodation Support Officers.

**3. Does this proposal / decision require an equality impact assessment? If no, please explain why.**

*Please note: if the proposal will have an impact on people (staff or the community) then an equality impact assessment **must** be undertaken*

|     |                                                                                                             |
|-----|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Yes | <If no, briefly summarise the reasons for this decision here, and skip ahead to the declaration at the end> |
|-----|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

**4. Please provide a summary of the steps taken, and the information used, to carry out this assessment, including any engagement undertaken**

*(Please refer to section 1 in the toolkit for guidance)*

Housing Services have responded to Adult Services SP Commissioning Strategy in developing SIL. Assessment of need to inform the SP Commissioning Strategy has been undertaken by Adult Services.

The journey from Sheltered Warden Service to SIL has been happening over a twelve month period and sheltered tenants have been kept informed of the changes and underpinning reasons.

**5. Will this proposal / decision have a positive impact on any of the protected characteristics (age; disability; gender-reassignment; marriage and civil partnership; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; and sexual orientation)?**

*(Please refer to section 1 in the toolkit for a description of the protected characteristics)*

The replacement of the Sheltered Warden Service by SIL will have a positive impact by giving older people with housing related support needs greater choice as to how and where they are met and will make more efficient use of available resources to support more older people.

**6. Will this proposal / decision have a disproportionate negative impact on any of the protected characteristics (age; disability; gender-reassignment; marriage and civil partnership; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; and sexual orientation)?**

No

**7. Has the proposal / decision been amended to eliminate or reduce any potential disproportionate negative impact? If no, please explain why.**

|     |                                                                                                                                                                                                                       |
|-----|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Yes | Before the creation of SIL older people with housing related support needs had to move to into sheltered housing to have them met; now if they would prefer to remain in their own home the support can come to them. |
|-----|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

**8. Have you identified any further actions to address and / or monitor any potential negative impact(s)?**

|    |                                                                      |
|----|----------------------------------------------------------------------|
| No | <If yes please complete the table below. If no, please explain here> |
|----|----------------------------------------------------------------------|

| Action(s)                                      | Owner        | By when?   |
|------------------------------------------------|--------------|------------|
| <Please describe>                              | <Enter Name> | <DD.MM.YY> |
| <Please describe>                              | <Enter Name> | <DD.MM.YY> |
| <Please describe>                              | <Enter Name> | <DD.MM.YY> |
| <Please describe>                              | <Enter Name> | <DD.MM.YY> |
| <Unrestrict editing to insert additional rows> | <Enter Name> | <DD.MM.YY> |

-----

**9. Declaration**

Every reasonable effort has been made to eliminate or reduce any potential disproportionate impact on people sharing protected characteristics. The actual impact of the proposal / decision will be reviewed at the appropriate stage.

|              |           |
|--------------|-----------|
| Review Date: | 25.4.2014 |
|--------------|-----------|

| Name of Lead Officer for Equality Impact Assessment | Date      |
|-----------------------------------------------------|-----------|
| John Sweeney                                        | 24.4.2015 |

**Please note you will be required to publish the outcome of the equality impact assessment if you identify a substantial likely impact.**

\_\_\_\_\_

|                                   |                                                |
|-----------------------------------|------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>             | <b>Pwyllgor Archwilio Cymunedau</b>            |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>        | <b>15 Mai 2014</b>                             |
| <b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b> | <b>Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Chymunedau</b> |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>        | <b>Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol</b>       |
| <b>Teitl:</b>                     | <b>Rhaglen Adnewyddu Stoc Tai'r Cyngor</b>     |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn nodi manylion y dull a gymerir i adnewyddu'r Stoc Tai i Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) ac yn amlinellu'r anawsterau a gafwyd yng nghontract 8 a'r gwersi a ddysgwyd o'r profiad hwn.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Bydd yr adroddiad yn galluogi'r Aelodau i adolygu'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â Safon Ansawdd Tai Cymru ac i adlewyrchu ar yr anawsterau a gafwyd yng nghontract 8 ac argymhellion i osgoi ailadrodd yr un problemau ar gontractau yn y dyfodol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor Archwilio yn nodi a darparu sylwadau ynglŷn â'r gwersi a ddysgwyd o raglen Safon Ansawdd Tai Cymru a'r materion penodol a nodwyd yn ystod contract 8.

## 4. Manylion am yr adroddiad.

### 4.1. Cefndir

Mae Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) yn ofyniad allweddol gan Lywodraeth Cymru ac yn dilyn gwerthuso opsiynau yn 2004 penderfynodd y Cyngor mai'r dull gorau o gyflawni'r safon oedd cynnal y stoc yn fewnol a chyflawni rhaglen gyfalaf oedd yn rhannu'r contractau adnewyddu yn nifer o 'grwpiau' y gellir eu rheoli.

Dechreuodd rhaglen adnewyddu Tai yn 2005 ac fe'u dyrannwyd yn 8 'grŵp' er mwyn rhannu'r gwaith yn well ar draws daearyddiaeth y sir, i ddarparu gwell gwerth am arian a sicrhau y gellir rhaglennu'r gwaith yn effeithiol gan y diwydiant adeiladu. Mae wyth contract tai wedi'u tendro'n llwyddiannus drwy gontract fframwaith adnewyddu tai.

Oherwydd lefel yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y prosiect hwn (dros £4 miliwn) cynghorodd caffael corfforaethol y byddai angen dilyn llwybr Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y broses a phroses dendro lawn yn unol â'r Cytundeb Fframwaith. Nodwyd ffigwr o 200 eiddo ar gyfer pob grŵp ac mae rhestr o'r contractwyr llwyddiannus a swm y contractau yn atodiad 1 er gwybodaeth. Deiliaid contract 8 oedd Bramall Construction a elwir yn Keepmoat yn awr.

Mae Contractau 1-7 wedi bodloni'r cwsmeriaid yn fawr (gyda chyfartaledd o 90% ar

gyfer pob contract) ac wedi cynhyrchu hwb sylweddol i'r economi leol drwy ddefnyddio contractwyr lleol a chadwyni cyflenwi lleol (mae Howden o Ddinbych wedi darparu'r ceginau ar gyfer holl gontractau Safon Ansawdd Tai Cymru). Mae'r holl eiddo o gontractau 1-8 sy'n diwallu'r safon wedi elwa o gael ceginau modern, ystafelloedd ymolchi, ail weirio a gwell effeithlonrwydd ynni. Mae Sir Ddinbych ar y trywydd cywir i fod yn un o ddim ond 4 o Gynghorau yng Nghymru gyfan i ddiwallu'r safon, mae nifer y rhai sy'n cael eu gwrthod ar gyfer Safon Ansawdd Tai Cymru yn is nag unrhyw awdurdod arall ac mae'r rhenti buddsoddi yn is o'u cymharu â landlordiaid eraill.

Gwnaed cryn dipyn o waith da ac mae'r mwyafrif llethol o'r tenantiaid wedi bod yn fodlon iawn gyda'r gwaith a wnaed. Fodd bynnag, bu rhai problemau sylweddol gyda chontract 8 yn bennaf mewn perthynas â safon yr isgontractwyr a gyflogwyd gan y prif gontractwr. Mae'r contract hwn wedi cynnwys gweithredwyr yn teithio pellterau gormodol yn aml gyda chreffft o ansawdd gwael. Mae sicrhau llafur lleol wedi'i hyrwyddo drwy'r rhaglen ar gyfer pob contract penodol ond nid yw'n ofyniad yn y contract ac mae wedi bod yn fwy o ymarfer ewyllys da.

Un rheswm posibl pam fod Keepmoat wedi methu defnyddio contractwyr lleol oedd bod nifer sylweddol o'r contractwyr lleol ar gyfer y math hwn o waith eisoes yn cael eu defnyddio ar gyfer contractau cynharach (yn bennaf 5, 6 a 7 oedd ar waith ar yr un pryd â Chontract 8) a'r ffaith fod gan Keepmoat raglen adnewyddu tebyg ar safle yn ardal Wrecsam.

Mae oedi a chynnydd gwael o'r dechrau wedi bod yn fater sylweddol yn y prosiect hwn ac nid oedd unrhyw welliant gan fod gwybodaeth arolwg gan GSDd i'r contractwr yn wallus neu heb ddigon o wybodaeth a manylder. Adferwyd y sefyllfa drwy ail-arolygu eiddo ac ail gyflwyno gwybodaeth ond roedd effaith dilynol gyda hyn oherwydd yr amser a gymerwyd i gwblhau'r gwaith.

Mynegwyd pryderon gan y Gwasanaethau Tai fod rhai aelodau o dîm rheoli'r contractwr yn tanberfformio ac yn caniatáu i'r prosiect waethygu gan arwain at newid yr holl bersonél ar safle'r contractwr ac i osgoi unrhyw oedi pellach penodwyd aelod o staff ychwanegol gan y Gwasanaethau Tai i'r tîm safle. Yn dilyn y newidiadau hyn roedd gwelliant sylweddol yn y perfformiad drwy fis Rhagfyr 2013 a mis Ionawr 2014. Yn anffodus nid yw'r contractwr wedi cynnal y lefel o welliant a gwaethygodd perfformiad y prosiect unwaith eto.

Mae ychydig o'r oedi yn deillio oherwydd bod cryn dipyn o waith sylweddol yn cael ei gyfarwyddo ers y flwyddyn newydd sydd wedi cael effaith sylweddol ar gynnydd y contractwr. Gwnaed nifer o geisiadau gan GSDd i Keepmoat i gynyddu darpariaeth yr isgontractwyr gan mai hyn oedd yn ymddangos fel y brif broblem. Tua diwedd y contract cynyddodd Keepmoat y nifer yn eu gweithlu eu hunain yn sylweddol er mwyn cwblhau'r gwaith oherwydd eu hanfodlonrwydd gydag ansawdd a dibynadwyedd rhai o'r isgontractwyr yr oeddent yn eu defnyddio.

#### 4.2 Gwersi a ddysgwyd ar gyfer Contractau Tai Cyfalaf yn y dyfodol

- 4.2.1 Bod y defnydd o amodau cymdeithasol ar gyfer defnyddio llafur lleol a chadwyni cyflenwi lleol yn cael eu gosod yn y contractau gwaith tai cyfalaf yn y dyfodol.
- 4.2.2 Bod mwy o bwysoli o ran darparu ansawdd yn hytrach na chost wrth sgorio ceisiadau yn y dyfodol ar gyfer rhaglenni adnewyddu cyfalaf.

- 4.2.3 Bod y brif raglen cyfalaf o waith yn cael ei gytuno ymlaen llaw cyn dechrau'r contract er mwyn gallu cwblhau adrannau o waith er mwyn rhoi mwy o reolaeth i'r cleient dros y rhaglen adeiladu neu adnewyddu.
- 4.2.4 Bod trefniadau rheoli prosiectau a rhaglenni yn nodi rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas â gweinyddu contract, rheoli a rheoli ansawdd gyda materion neu bryderon difrifol o ran perfformiad y contractwr yn cael eu cofnodi'n ffurfiol mewn cyfarfodydd prosiect ac yn cael eu rhannu gyda'r Pennaeth Gwasanaeth ac Uwch Weithredwr y contractwr i ddarparu lefel uchel o ymroddiad i ymdrin â pherfformiad annerbyniol.
- 4.2.5 Bod gwell rheolaeth o ansawdd drwy samplu arolygon ar hap gan Glerc y Gwaith er mwyn sicrhau cywirdeb a lleihau oedi a dadleuon gyda'r contractwr.
- 4.2.6 Sicrhau bod pwynt cyswllt unigol ar gyfer cyfarwyddo'r contractwr a bod yr holl gyfarwyddiadau llafar yn cael eu cadarnhau'n ysgrifenedig i'r contractwr.
- 4.2.7 Y rhoddir ystyriaeth i wneud y gorau o ddefnydd o'r DLO ar gontractau'r dyfodol.
- 4.3 Cymalau Cytundebol sy'n caniatáu diddymu'r Contract

Un cwestiwn a ofynnir yn aml yw pam na ddiddymwyd y contract gyda Keepmoat? O dan y contract mae cymalau sy'n ymdrin â diddymu'r contract (mae'r rhain ynghlwm er gwybodaeth) fodd bynnag gellir eu gweld o dan y penawdau cyffredinol canlynol:

Pan fydd y Contractwr:

- Yn peidio cyflawni'n gwaith
- Yn methu parhau'n rheolaidd ac yn ddyfal gyda'r gwaith
- Yn gwrthod cydymffurfio â rhybudd neu gyfarwyddyd gan y Pensaer / gweinyddwr y Contract

Yn anffodus, yn gytundebol ni thorwyd yr un o'r cymalau hyn. Yr unig gymal y gellir ei weithredu o bosib oedd 'Methu parhau'n rheolaidd ac yn ddyfal gyda'r gwaith' fodd bynnag gan mai'r unig ddyddiad contract a nodwyd o fewn y contract oedd y dyddiad gorffen, mae'n anodd arddangos eu bod wedi methu â pharhau'n rheolaidd â'r gwaith.

Mae'r argymhellion mewn perthynas ag adran cwblhau contractau a gwell rheolaeth o ansawdd mewn perthynas â data arolygon yn golygu y dylid osgoi ailadrodd y broblem.

#### 4.4 Camau Nesaf

Gorffennodd Keepmoat y contract ar 17 Ebrill ac yn awr mae ganddynt gyfrifoldeb i gwblhau unrhyw fân broblemau sy'n weddill. Mae'r Gwasanaethau Tai wedi argymhell bod Keepmoat yn gweithio yn unol ag amseroedd ymateb y Cyngor o ran unrhyw waith brys neu waith arferol (copi o'r amserlen yn Atodiad 2) a bydd methu â diwallu'r terfynau amser yn golygu y bydd y DLO yn cwblhau'r gwaith ac yn gofyn am daliad gan Keepmoat o dan amodau'r contract.

Mae 8 eiddo sydd yn aros i gael eu hadnewyddu i Safon Ansawdd Tai Cymru a gwnaed penderfyniad i'w tynnu o'r rhaglen a darparu 5 ohonynt i'r DLO a 3 i'r contractwyr lleol i'w hadnewyddu i'r safon. Ar ôl eu cwblhau bydd hyn achosi i'r holl

Stoc Tai gydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru, gan wneud Sir Ddinbych yn un o ddim ond 4 awdurdod sydd wedi cyflawni'r gofyniad hwn.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae darparu tai o ansawdd da yn flaenoriaeth gorfforaethol gyda rheolaeth effeithiol ac effeithlon y Gwasanaeth Tai yn allweddol i sicrhau bod yr amcan hwn yn cael ei gyflawni ar gyfer tenantiaid a phreswylwyr.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae costau darparu Safon Ansawdd Tai Cymru wedi'u cynnwys yng Nghynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai ac yn cynnwys cyfuniad o Lwfans Atgyweiriadau Mawr, Derbynion Cyfalaf y gellir eu defnyddio, a Benthycia Darbodus. Mae'r gwaith yn cael ei ariannu drwy raglen gwaith cyfalaf ac mae arolwg cyflwr stoc diweddar wedi nodi bod y Cyfrif Refeniw Tai yn hyfyw ac yn gynaliadwy dros y cyfnod cynllunio busnes o 30 mlynedd.

**7. Beth yw'r prif gasgliadau Aseiad Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed EqIA wedi'i lenwi fod ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad.**

Amherthnasol

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Mae'r Rhaglen Gyfalaf wedi'i drafod a'i gytuno gyda Ffederasiwn Tenantiaid.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r rhaglen gwelliant yn cael ei ariannu drwy Gynllun Busnes y Stoc Tai. Mae'r cynllun ei hunan yn gadarn ac yn hyfyw yn ariannol dros ei gyfnod o 30 mlynedd.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r brif risg yn ymwneud â chaffael contract newydd ac i sicrhau nad yw'r problemau a brofwyd yn y contract hwn yn cael eu hailadrodd. Dylai bod mabwysiadu'r argymhellion sydd yn yr adroddiad hwn yn cyfrannu ychydig at atal ailadrodd y problemau hyn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Erthygl 6.3.4(c) Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi beth yw grymoedd y Pwyllgorau Archwilio mewn perthynas â'r mater hwn.

**Swyddog Cyswllt:**

Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol

Ffôn: 01824 712955

**WHQS Contracts****Community Scrutiny Committee**

Brief history as follows;

**Contract 1**

|                                |                          |
|--------------------------------|--------------------------|
| Number of properties tendered  | 212                      |
| Number of properties completed | 197                      |
| Client budget from H05         | £2,400,000.00            |
| Pre-tender estimate from H05   | £2,200,000.00            |
| Contract Sum                   | £1,463,731.00            |
| Final Account (anticipated)    | £1,580,250.61            |
| Successful Contractor          | Bramall Construction Ltd |

**Contract 2**

|                                |                                |
|--------------------------------|--------------------------------|
| Number of properties tendered  | 218                            |
| Number of properties completed | 218                            |
| Client budget from H05         | £2,100,000.00                  |
| Pre-tender estimate from H05   | £1,980,500.00                  |
| Contract Sum                   | £1,579,819.00                  |
| Final Account (anticipated)    | £1,920,000.00                  |
| Successful Contractor          | Anthony Dever Construction Ltd |

**Contract 3**

|                                |                          |
|--------------------------------|--------------------------|
| Number of properties tendered  | 209                      |
| Number of properties completed | 213                      |
| Client budget from H05         | £2,200,000.00            |
| Pre-tender estimate from H05   | £1,855,519.00            |
| Contract Sum                   | £1,563,094.0             |
| Final Account (anticipated)    | £1,306,530.29            |
| Successful Contractor          | Bramall Construction Ltd |

**Contract 4**

|                                |                                |
|--------------------------------|--------------------------------|
| Number of properties tendered  | 237                            |
| Number of properties completed | 232                            |
| Client budget from H05         | £2,000,000.00                  |
| Pre-tender estimate from H05   | £1,900,000.00                  |
| Contract Sum                   | £1,646,798.00                  |
| Final Account (anticipated)    | £1,928,117.00                  |
| Successful Contractor          | Anthony Dever Construction Ltd |

**Contract 5**

|                                |                                |
|--------------------------------|--------------------------------|
| Number of properties tendered  | 233                            |
| Number of properties completed | 227                            |
| Client budget from H05         | £1,800,000.00                  |
| Pre-tender estimate from H05   | £1,758,631.25                  |
| Contract Sum                   | £1,714,680.00                  |
| Final Account (anticipated)    | £2,003,561.11                  |
| Successful Contractor          | Anthony Dever Construction Ltd |

**Contract 6**

|                                |                                |
|--------------------------------|--------------------------------|
| Number of properties tendered  | 231                            |
| Number of properties completed | 215                            |
| Client budget from H05         | £2,660,000.00                  |
| Pre-tender estimate from H05   | £3,290,000.00                  |
| Contract Sum                   | £2,841,243.00                  |
| Final Account (anticipated)    | £2,645,421.00                  |
| Successful Contractor          | Anthony Dever Construction Ltd |

**Contract 7**

|                                |                                |
|--------------------------------|--------------------------------|
| Number of properties tendered  | 189                            |
| Number of properties completed | 189                            |
| Client budget from H05         | £2,254,000.00                  |
| Pre-tender estimate from H05   | £2,647,000.00                  |
| Contract Sum                   | £2,437,975.10                  |
| Final Account (anticipated)    | £2,437,975.10                  |
| Successful Contractor          | Anthony Dever Construction Ltd |

**Contract 8**

|                                |                          |
|--------------------------------|--------------------------|
| Number of properties tendered  | 177                      |
| Number of properties completed | 152                      |
| Client budget from H05         | £2,208,000.00            |
| Pre-tender estimate from H05   | £2,765,205.64            |
| Contract Sum                   | £2,777,649.40            |
| Final Account (anticipated)    | £2,575,327.40            |
| Successful Contractor          | Bramall Construction Ltd |

**Totals**

|                              |                |
|------------------------------|----------------|
| Client budget from H05       | £17,622,000.00 |
| Pre-tender estimate from H05 | £18,396,855.89 |
| Contract Sum                 | £16,024,989.50 |
| Final Account (anticipated)  | £16,397,182.51 |

Tenders for Contract 8 were opened on 01/10/12

|                                 |               |
|---------------------------------|---------------|
| G Purchase                      | Declined      |
| Anthony Dever Construction Ltd. | £2,899,987.00 |
| Watkin Jones Group              | Declined      |
| Integral UK Ltd.                | Declined      |
| Bramall Construction Ltd.       | £2,777,649.40 |

**Procurement**

Discussions have been held with the Strategic Procurement Unit (SPU) regarding exclusion of poor performing contractors from future works. SPU have advised that this is not possible under the current EU Procurement Regulations unless there has been a proven case of Professional Misconduct carried out by the contractor.

The new 21<sup>st</sup> Century Schools Framework aims to address this by incorporating into the management system a set of Key Performance Indicators to monitor time, cost and quality amongst others. Contractors that regularly underperform will be required to attend the Strategic Management Board to discuss the underperformance and agree an action plan for improvement.

## **Contract Management Arrangements from Design & Construction (D&C):**

D&C were commissioned by Housing Services (client) to administer the contract on their behalf.

With regards to managing the contract, the historic arrangement that exists between Housing and D&C is that D&C are responsible for the administration of the contract and the payments, whereas Housing are responsible for the site supervision / quality control / construction side. This is not the usual way construction projects are managed. However, this arrangement was set up at the request of Housing some years ago and if strict channels of communication are adhered to, this arrangement can work.

## **Monitoring Procedures**

Once contracts are let, they are monitored regularly throughout their duration through the following procedures:-

Progress Meetings that are held at monthly intervals and chaired by DCC.

The Contractor and Clerk of Works present their written or verbal reports at these meetings.

All aspects concerning progress, policy and any outstanding verification of the requirements / proposals are to be discussed and minuted for action where applicable. Minutes from Progress Meetings are to be accepted as direction for action but variations to the contract will be the subject of separate CAIs (Contract Administrator's Instructions) issued by DCC. Any dissents are to be notified within 7 days.

Weekly Clerk of Works Reports / Updates gives a detailed account of what dates properties are opened / closed together with specific dates when various elements of work are carried out / length of time in properties etc.

Clerk of Works / Tenant Liaison Officer on site daily and weekly visit from Design and Construction. Day to day issues generally resolved at site level and confirmed via e-mail correspondence.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**WHQS Contracts**

**Proposal to Deal with DLP (Defects Liability Period):**

Well documented problems with lack of operatives on site as the contract works are ongoing therefore prompting the predictable scenario of getting men back to carry out defects.

It is the intention to meet with the contractors' senior management team to table the following proposal;

Defects to be treated at three stages and in line with DCC current response times (appendix 4) which has been modified to reflect works applicable to Contract 8.

**Category 1 - Emergency (danger to life / limb or to the fabric of the building)**

Attend site and make safe within 4 hours – (it is proposed that DCC DLO to respond and address all category 1 due to excessive travel distances involved)

**Category 2 - Urgent**

Attend site and make safe within 2 working days (depending on the nature of the defect / tenant needs or time of the year)

**Category 3 - Routine**

Inspect / Assess within 5 working days, work to be completed within 15 working days

Failure to carry out / respond to any of the above within the timescale will result in works being carried out by DCC DLO or other approved local contractor (at an agreed reasonable rate) and recharged to the contract with monies deducted from Final Account.

The above proposal is to be mutually agreeable to both parties and confirmed in writing.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Appendix 3  
Subcontractor Evaluation Procedure

|                            |     |
|----------------------------|-----|
| <b>Registering body</b>    | N/A |
| <b>Registration number</b> | N/A |

1.10. VAT registration number

|                                |             |
|--------------------------------|-------------|
| <b>VAT Registration number</b> | 915 771 313 |
|--------------------------------|-------------|

**2. Subcontracting and consortia**

All Potential Providers should answer question 2.1. Where a Potential Provider at this stage of the process intend to sub-contract they should also answer questions 2.2 and 2.3 below. Where a Potential Provider becomes aware of the intention to subcontract at later stages in the procurement they are required to notify the Authority of this and provide the information requested below at that time. Where a Potential Provider is a consortium they should indicate which members are proposing to deliver the works.

2.1. Please tick the box below which applies

|                                                                                                                                  |   |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---|
| <b>a) Your organisation is bidding to provide the services required itself.</b>                                                  |   |
| <b>b) Your organisation is bidding in the role of Prime Contractor and intends to use third parties to provide some services</b> | ✓ |
| <b>c) The Potential Provider is a consortium</b>                                                                                 |   |

2.2. If your answer to 2.1 is (b) or (c) please indicate in the table below (by inserting the relevant company/organisation name) the composition of the supply chain, indicating which member of the supply chain (which may include the Potential Provider itself or solely be the Potential Provider) will be responsible for the elements of the requirement.

| <b>Requirement</b>            | <b>Company / Organisation</b> | <b>How much of the requirement and what will they directly deliver (%)</b> |
|-------------------------------|-------------------------------|----------------------------------------------------------------------------|
| Please see below for comment. |                               |                                                                            |
|                               |                               |                                                                            |

We only rely on subcontractors for electrical, plumbing & heating services. At this stage we do not have names as we would want to use subcontractors from the local area's and would like to include Denbighshire in the process if they so wished.

2.3. If your answer to 2.1 is (b) and you are unable to confirm all sub-contractors (complete supply chain) at this stage, you will need to demonstrate a satisfactory methodology and track record of delivering a supply chain. Please give a brief outline on policy regarding the use and appointment of sub-contractors and, if applicable, the extent to which it is envisaged they may be used in any contract.

**Methodology for procuring supply chain 300 words or fewer – use only the space provided)**

Our partnering ethos extends to our integrated supply chain strategy to create benefits for our clients, supply chain and our business. We can use our supply chain procurement strategy to deliver efficiencies for Denbighshire. In all of our partnering schemes, we have demonstrated to clients that we are prepared to share our expertise to use supply chain management to benefit our clients and reduce costs.

Bramall have formed long-term relationships with our key suppliers and subcontractors, and believe they:

- Are committed to reducing costs
- Never jeopardise or compromise quality
- Ensure that frequently used items are always available
- Make a fair and predictable profit.

At Bramall we carry out a stringent process to select subcontractors whom we feel enhance our delivery and performance. The selection process is based on experience with and good track record from existing relationships (based on historical K.P.I performance) and/or emerging business relationships with proven delivery and strategic benefit for both parties.

It is a two-stage process. Firstly, subcontractors are required to complete a standard questionnaire which assesses their capacity and resource, their experience in similar work, and their systems and policies (e.g. Health and Safety, Quality Management). All our subcontractors must be CHAS accredited.

The second stage involves a formal interview to ensure the best subcontractor/supplier is selected for the project.

We firmly believe in engaging and maximising local enterprise and will encourage the use of local business on this project where it provides best value.

We currently hold a substantial database of suppliers and subcontractors, and hold a number of trading agreements in Wales.

Our main driver in subcontractor selection is to maximise the efficiency and effectiveness of the supply chain and to pass these savings onto the client.

Appendix 3. Subcontractor evaluation procedure.

**3. Capability**

3.1. Please provide details of the Potential Provider's principal areas of business activity. Your answer must be confined to the space provided

|                                                                                                       |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Brief Description of the Potential Provider's primary business and main products and services.</b> | The principle areas of business activity for Bramall Construction are the construction and improvement and repair of both residential and non-residential buildings for public sector organisations. Our core specialism is social housing regeneration and new build and educational buildings on a partnering basis. |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

Appendix 4  
Duties of Contract Administrator and Client Roles

**P7/08/ Council House Refurbishment Programme 2005 onwards**

**Duties of CA role in conjunction with Client**

**23<sup>rd</sup> March 2010**

**Pre Tender – (Stage E, F, G)**

| <b>Item</b>                                                                   | <b>Action</b> |
|-------------------------------------------------------------------------------|---------------|
| 1. Write / periodically revise and update NBS specification.                  | CA            |
| 2. Organise Surveyors / CoW's to carry out surveys in allocated areas.        | Client        |
| 3. Periodic review and update of standard survey sheets                       | Client/CA     |
| 4. Ensure compliance with H & S requirements and F10 posted for each contract | CA/CDMC       |
| 5. Liaison to establish Contract Addresses                                    | Client/CA     |
| 6. Liaison with QS to prepare Pre-Tender Estimate                             |               |
| 7. Monthly review meeting on the above                                        | Client/CA     |

**Tender Award – (Stage H - J)**

| <b>Item</b>                                                                   | <b>Action</b> |
|-------------------------------------------------------------------------------|---------------|
| 1. Liaise with QS in relation to Tenders                                      | CA            |
| 2. Pre-Start meeting with successful Tendering Contractor – chair and minutes | CA            |
| 3. Arrange site start / ensure all documentation in place                     | CA            |

**Site Operations / Construction to Practical Completion – (Stage K)**

| <b>Item</b>                                                                     | <b>Action</b> |
|---------------------------------------------------------------------------------|---------------|
| 1. Take minutes and chair monthly Progress Meetings                             | Client        |
| 2. Carry out Site Inspections weekly/meet Surveyors/CoW's for day to day issues | Client/CA     |
| 3. Instructions to cover variations (A.I.'s)                                    | CA            |
| 4. Deal with day to day Technical queries (CA), and Logistical queries (Client) | Client/CA     |
| 5. Issue Partial Possession Certificates on monthly basis                       | CA            |
| 6. Review Contractor's Programme                                                | Client/CA     |
| 7. Ensure asbestos issues and procedures followed in line with legislation      | Client        |
| 8. Ensure snagging dealt with effectively and dispatched                        | Client/CA     |
| 9. Liaise with PQS to monitor Programme and costs                               | Client/CA     |
| 10. Ensure Handovers meet Programme targets                                     | Client/CA     |

**Post Practical Completion – (Stage L)**

| <b>Item</b>                                     | <b>Action</b> |
|-------------------------------------------------|---------------|
| 1. Issue Completion of Defects on Monthly basis | CA            |
| 2. Carry out Contractor Performance appraisal   | Client        |

**This summary needs to be multiplied by the number of contracts running.**

**NOTE:**

**The following items have been completed for this particular framework but would normally come under the Pre-Tender Heading.**

- Prepare PPQ document.
- Post PQQ on OJEU website
- Liaise with DCC procurement in relation to PQQ and tender process.
- Organise assessment and marking of PQQs.
- Organise marking of H & S questionnaires by specialist company.
- Correlate all marking of PQQs and summarise and report.

**Certain roles will be subject to adjustment in latter Phases of programme.**

|                                   |                                                                                           |
|-----------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>             | <b>Pwyllgor Archwilio Cymunedau</b>                                                       |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>        | <b>15 Mai 2014</b>                                                                        |
| <b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b> | <b>Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Chymunedau / Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden</b> |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>        | <b>Arweinydd Tîm - Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd</b>                                   |
| <b>Teitl:</b>                     | <b>Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol</b>                                               |

---

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

- 1.1 Mae'r adroddiad yn sôn am y Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol cyfredol a chanfod ffordd ymlaen ar gyfer y 12 mis nesaf.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

- 2.1 Diweddarau aelodau'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau ynglŷn â'r cynnydd a wnaed gyda Chynllun Gweithredu Strategaeth Gyfathrebu (blwyddyn 1), i ganfod amcanion ar gyfer Blwyddyn 2 a chytuno ar brotocol cyfathrebu gyda'r Aelodau.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

- 3.1 Nodi a rhoi sylwadau ar y cynnydd a wnaed yng Nghynllun Gweithredu Blwyddyn 1.
- 3.2 Nodi unrhyw faterion i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Blwyddyn 2.
- 3.3 Darparu arsylwadau a chefnogi'r protocol ynghlwm ynglŷn â chyfathrebu ag Aelodau, **sy'n destun cymeradwyaeth, gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.**

## **4. Manylion am yr adroddiad.**

- 4.1 Ar ddechrau 2013, cymeradwyodd y Cabinet Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol tair blynedd ar gyfer y Cyngor.
- 4.2 Cytunodd y Cyngor gydag egwyddorion allweddol y Strategaeth a chytuno y dylid cynhyrchu Cynllun Gweithredu bob 12 mis, i ymdrin ag unrhyw faterion sy'n codi neu'r cyfle i deilwra'r Strategaeth Gyfathrebu, i ddefnyddio unrhyw ddatblygiadau technolegol newydd.
- 4.3 Mae Cynllun Gweithredu Blwyddyn 1 yn dod i ben ac mae'n amserol adlewyrchu ar lwyddiant y Strategaeth a nodi amcanion cyfathrebu newydd ar gyfer y Cyngor.

- 4.4 Ers y cytunwyd ar y Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol yn 2013, mae'r Cyngor wedi ailstrwythuro ei swyddogaethau Cyfathrebu a Marchnata, gyda'r nod o gael strwythur trefniadol cadarn sydd ar ei orau er mwyn diwallu'r anghenion cyfathrebu a marchnata a ddiffiniwyd yn y Cynllun Corfforaethol.
- 4.5 Mae'r Tîm Cyrchfan, Marchnata a Chyfathrebu newydd, sy'n cynnwys twristiaeth, marchnata, digwyddiadau mawr, cyfathrebu corfforaethol a'r Gymraeg wedi creu gweithlu gyda gwell canolbwynt, gyda gwell chyfarwyddiaeth i ddarparu blaenoriaethau corfforaethol, gan weithio'n gydlynol ar draws y gwasanaethau gan ganolbwyntio'n benodol ar adfywio, datblygu economaidd, cymorth busnes a thwristiaeth.
- 4.6 Mae angen i'r Cyngor fabwysiadu dull rhagweithiol ar gyfer marchnata a chyfathrebu a'i adolygu'n barhaus o ran y modd y mae'n cyfathrebu, er mwyn i'r gynulleidfa gael gwybodaeth am y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu cynnig ac i sicrhau bod y gwasanaethau'n diwallu anghenion y preswylwyr a'r ymwelwyr.
- 4.7 O ganlyniad, canolbwynt allweddol ar gyfer yr adran newydd yw creu Strategaeth Farchnata ar gyfer Sir Ddinbych, ond cydnabyddir bod angen Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol cyffredinol fydd yn tanategu'r holl weithgarwch cyfathrebu o fewn yr awdurdod.
- 4.8 Yn amlwg, mae'r canolbwynt wedi newid ar ôl creu'r Tîm Cyrchfan, Marchnata a Chyfathrebu newydd.
- 4.9 Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o'r gweithredoedd i wella a nodwyd yn y Strategaeth wedi'u datblygu, gan gynnwys:
- Trefnu presenoldeb y Cyngor yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru.
  - Brandio a dyluniad newydd ar gyfer y Cyngor
  - Cyfres glir o dempledi ar gyfer llenyddiaeth gorfforaethol, cyflwyniad a phapurau'r Cyngor.
  - Y defnydd o gyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwaith a gweithgareddau'r Cyngor
  - Datblygu safonau Siarter Cwsmeriaid er mwyn i'r cwsmeriaid wybod pa fath o wasanaeth y gallant ei ddisgwyl gan y Cyngor.
  - Ffrydiau gwaith sy'n deillio o'r blaenoriaethau corfforaethol.
  - Ailwampio'r wefan gorfforaethol
  - Datblygu cyfathrebu mewnol ymhellach
  - Datblygu Strategaeth Ddigwyddiadau
  - Ymgyrchoedd marchnata penodol wedi'u cytuno gan y Cyngor, Baw Cŵn, Maethu, Cyngor Gorau yng Nghymru, Caru'r Rhyl
  - Archwiliad sir gyfan o'r Gymraeg.
- 4.10 Mae'r Cyngor hefyd wedi parhau i wella eu gweithgareddau cysylltiadau cyfryngol, gyda chyfanswm o 230 cyhoeddiadau i'r wasg yn y chwe mis diwethaf. Roedd 80% o'r cyhoedduswydd a dderbyniwyd yn bositif, gyda'r mwyafrif yn ymwneud â chyhoeddiadau i'r wasg gan y Cyngor.

- 4.11 Mae nifer o feysydd gwaith fydd angen ymdrin â hwy ac mae Cynllun Gweithredu'n cael ei baratoi ar gyfer Blwyddyn 2. Mae'r materion hyn yn cynnwys:
- Datblygu Strategaeth Farchnata Digidol
  - Ymgorffori proses Rheoli Cyfrifon
  - Datblygu cyfathrebu mewnol
  - Gweithredu Safonau'r Gymraeg
  - Gwella ein gallu i Gynllunio Rhag Argyfwng
  - Gweithredu'r Strategaeth Ddigwyddiadau.
  - Cyfathrebu ynglŷn â'r rhaglen foderneiddio
  - Cyfathrebu ar gyfer digwyddiadau mawr
  - Datblygu cysylltiadau cyfryngol ymhellach (lleol, rhanbarthol ac arbenigol)
- 4.12 Bydd y tîm yn gweithio gyda'r gwasanaethau er mwyn bod yn fwy rhagweithiol o ran cyfathrebu (gyda swyddogion ac aelodau), ac o ganlyniad, byddwn yn fwy parod i ymdrin â'r materion sy'n codi yn y cyfryngau. Byddwn hefyd yn ffurfio proses ar gyfer cyfathrebu mewnol a'r broses gymeradwyo ar gyfer cyhoeddiadau i'r wasg.
- 4.13 Bydd y tîm yn datblygu pecyn gwaith / model o arferion da i gynorthwyo'r gwasanaethau i ddeall heriau cyfathrebu a'r dull rhagweithiol y mae angen i'r Cyngor ei ddefnyddio er mwyn ymdrin â materion all fod yn gynhennus yn ôl y cyhoedd.
- 4.13 Fodd bynnag mae'r Tîm Cyrchfan, Marchnata a Chyfathrebu yn awyddus i ymgysylltu ag Aelodau i gynorthwyo i nodi unrhyw faterion sydd angen eu cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Blwyddyn 2. Y bwriad yw cyflwyno'r Cynllun Gweithredu i'w ystyried gan y Cabinet ym mis Gorffennaf.
- 4.14 Un o'r materion a godwyd eisoes gan yr Aelodau yw bod angen gwell cyfathrebu rhwng y swyddogion a'r Aelodau. Derbynnir bod cyfathrebu wedi gwella yn gyffredinol, ond mae rhai enghreifftiau yn parhau lle yr oedd yr Aelodau lleol wedi dysgu am weithgareddau'r Cyngor gan eu hetholwyr lleol.
- 4.15 Er mwyn ymdrin â hyn, mae protocol cyfathrebu byr rhwng y swyddogion a'r Aelodau wedi'i lunio. Mae'r ddogfen yn Atodiad A.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

- 5.1 Mae'r Strategaeth Gyfathrebu a'r gweithgareddau cysylltiol yn cyfrannu at holl flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, ynghyd ag ymdrin â'r amcan drosfwaol o wella a diogelu enw da'r Cyngor.

## **6. Beth fydd yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd unrhyw gostau'n cael eu cynnwys o gyllideb gyfredol Cyrchfan, Marchnata a Chyfathrebu.

**7. Beth yw'r prif gasgliadau Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed EqIA wedi'i lenwi fod ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Gwybodaeth yw'r adroddiad hwn yn unig ac nid oes angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar hyn o bryd.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

8.1 Ymgynghorwyd gyda'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a'r Cabinet yn 2013 ar gyfer Strategaeth Gyfathrebu Blwyddyn 1. Byddwn yn ymgynghori gyda nifer o grwpiau budd-ddeiliaid cyn cytuno a gweithredu Cynllun Gweithredu Blwyddyn 2.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Bydd yr holl gostau'n cael eu cynnwys mewn cyllidebau presennol.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Ni ragwelir risgiau sylweddol gydag argymhellion yr adroddiad hwn. Mae'r risg o beidio â chyfathrebu gyda thrigolion a budd-ddeiliaid eraill yn cynnwys difrod i enw da'r Cyngor a risg o beidio â chyfathrebu gyda'r trigolion ynglŷn â sut i gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae erthyglau 6.3.2(f) a 6.3.4(b) yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r mater hwn.

**Swyddog Cyswllt:**

Arweinydd Tîm - Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd

Ffôn: 01824 706222

## Protocol Cyfathrebu gydag Aelodau

Mae'r Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol yn amlygu bod angen cyfathrebu'n effeithiol rhwng y swyddogion a'r Aelodau.

Fodd bynnag, mae rhai enghreifftiau o Aelodau'n dysgu am faterion sy'n effeithio ar eu wardiau yn unionyrchol gan yr etholwyr, yn hytrach na thrwy ohebiaeth gan yr Aelodau.

I'r diben hwn, mae'r Cyngor wedi drafftio protocol byr ar gyfer cyfathrebu gyda'r Aelodau.

### **Mae'n rhaid i'r swyddogion hysbysu'r Aelodau (ar e-bost neu dros y ffôn) ynglŷn ag:**

- Unrhyw faterion cynhennus a godwyd gan yr etholwyr.
- Unrhyw faterion lleol sy'n debygol o gynhyrchu cyhoeddusrwydd positif neu negyddol.
- Unrhyw ddigwyddiadau / ymweliadau safle a gynhelir yn y ward.
- Unrhyw ymweliadau gwleidyddol / Gweinidogaethol i'r ward.
- Unrhyw lythyr cyffredinol sy'n cael ei ddsbarthu ynglŷn â mater penodol yn ymwneud â ward.
- Unrhyw fuddsoddiadau / prosiectau posibl yn y ward.
- Unrhyw gyhoeddiadau i'r wasg / diddordeb gan y wasg sy'n bositif neu'n negyddol ynglŷn â ward benodol.
- Unrhyw gais am sylw neu gyfweliadau ynglŷn â mater yn ymwneud â ward.
- Unrhyw gyfleoedd am luniau sy'n cael eu cynnal.

Byddai'n briodol hysbysu'r Tîm Cyrchfan, Marchnata a Chyfathrebu os ydych yn ymwybodol o unrhyw un o'r materion hyn, i nodi unrhyw gyfleoedd i hyrwyddo'r Cyngor a'i waith.

**Am gyngor yn ymwneud â'r mater hwn, cysylltwch â'r Tîm Cyrchfan, Marchnata a Chyfathrebu ar 6222.**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Archwilio Cymunedau

**Dyddiad y Cyfarfod:** 15 Mai 2014

**Aelod/Swyddog Arweiniol:** Aelod Arweiniol Parth y Cyhoedd /  
Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**Awdur yr Adroddiad:** Rheolwr Rheoli Datblygiad

**Teitl:** Gwell Rheoleiddio Safleoedd Carafannau

---

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1 Mae'r adroddiad yn ddilyniant i'r un a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau ym mis Gorffennaf 2013. Bydd yr adroddiad yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar ddeddfwriaeth berthnasol newydd Llywodraeth Cymru ar y pwnc hwn a'i oblygiadau i Gyngor Sir Ddinbych, polisïau a gweithdrefnau presennol Cyngor Sir Ddinbych a rôl grŵp prosiect mewnol Cyngor Sir Ddinbych.

## **2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

2.1 Mae'r adroddiad wedi'i gynhyrchu oherwydd y pryderon parhaus a godwyd gan Aelodau am y defnydd posibl o feysydd carafannau gwyliau yn y Sir ar gyfer defnydd preswyl parhaol. Bydd yr adroddiad yn rhoi'r darlun diweddaraf i Aelodau o sut mae'r pryder uchod yn cael sylw ar draws Cymru a sut mae prosiect Cyngor Sir Ddinbych i fynd i'r afael â'r pryder hwn yn mynd rhagddo.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod y Pwyllgor yn rhoi sylwadau ar gyfeiriad y prosiect.

## **4. Manylion am yr adroddiad.**

4.1 Fel y bydd Aelodau'n gwybod, mae yna nifer fawr o feysydd carafannau yn y Sir sy'n cynnwys cymysgedd o safleoedd gwyliau statig a theithiol sy'n cyfrannu at lety twristiaeth Sir Ddinbych. Mae yna hefyd nifer llai o safleoedd preswyl parhaol. Mae cofnodion Trwyddedau Meysydd Carafannau Sir Ddinbych yn nodi bod yna oddeutu 6000 o leiniau carafannau statig, 900 o leiniau carafannau teithiol a 70 o leiniau carafannau preswyl dros 4 safle.

4.2 Mae Aelodau Etholedig ac eraill wedi mynegi pryder ynglŷn â nifer y meysydd carafannau yn y Sir a sut mae rhai ohonyn nhw'n cael eu defnyddio. Mae'r pryderon yn ymwneud, yn bennaf, â'r canfyddiad bod unigolion yn defnyddio carafannau fel eu prif neu unig breswylfa i osgoi Treth y Cyngor a defnyddio gwasanaethau lleol megis ysgolion a meddygfeydd. Gall carafannau gael eu hystyried yn gyffredinol i

ddarparu llety is-safonol ar gyfer defnydd parhaol. Mae'r Heddlu hefyd wedi mynegi pryderon ynglŷn â'r cynnydd yn nifer y troseddau y rhoddir gwybod amdanynt ar feysydd carafannau. Oherwydd hynny, mae Swyddogion yn cydnabod bod hon yn broblem fawr i'r Sir a bod angen nid yn unig i gydlynu ar draws gwasanaethau ond cysylltu â mudiadau partner fel yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân a'r Bwrdd Iechyd.

- 4.3 Mae adolygu meysydd carafannau'r Sir a datblygu strategaeth ar gyfer monitro a gorfodi wedi'u nodi fel Blaenoriaeth Gwasanaeth o fewn y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd. Bydd y flaenoriaeth yn derbyn sylw gan ddefnyddio methodoleg rheoli prosiect y Cyngor ac mae'n cael ei arwain gan grŵp llywio o uwch swyddogion o bob rhan o'r gwasanaeth.
- 4.4 Mae'r Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, dros y 12 mis diwethaf, wedi mynd drwy gyfnod o ailstrwythuro gydag adnoddau staffio sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio i ganolbwyntio ar flaenoriaethau a nodwyd. Mae'r broses o ailstrwythuro a gosod blaenoriaethau wedi golygu nad yw'r prosiect hwn wedi symud ymlaen yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, mae strwythurau bellach ar waith gyda staff a nodwyd i ganolbwyntio ar reoleiddio meysydd carafannau'n well. Er bod rhywfaint o waith cadarnhaol wedi'i ddatblygu dros y 12 mis diwethaf o ran archwiliadau safle, penderfyniadau cynllunio a datblygu gweithdrefnau, mae'n bwysig tynnu sylw at ddatblygiadau mewn deddfwriaeth a fydd yn sail i waith parhaus yn y maes hwn.

### **Deddfwriaeth**

- 4.5 Mae dau ddarn o ddeddfwriaeth berthnasol yng Nghymru sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf sy'n ceisio mynd i'r afael â rhai o bryderon yr Aelodau a amlinellir uchod.
- 4.6 Y cyntaf o'r rhain yw Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 sydd i fod i ddod i rym ar 1 Hydref 2014. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ymwneud yn benodol â safleoedd preswyl parhaol, a elwir weithiau yn Gartrefi mewn Parciau. Yn fyr, mae'r Ddeddf yn darparu gweithdrefnau trwyddedu diwygiedig ar gyfer safleoedd o'r fath mewn ymgais i ddod â safonau byw i lefel well. Mae'r Ddeddf hefyd yn adolygu amodau enghreifftiol ar gyfer trwyddedau ac mae'n meithrin trefniadau cytundebol gwell rhwng y perchnogion safleoedd a deiliaid y carafannau/cartrefi.
- 4.7 Yn Sir Ddinbych, dim ond dau safle o'r fath sydd yn dod o dan ddarpariaethau Deddf 2013. Y rhain yw Morfa Ddu, Prestatyn (50 safle), Parc Stafford, Y Rhyl (60 safle). Mewn mannau eraill mae safleoedd lle mae gan garafannau unigol ddefnydd preswyl parhaol a awdurdodwyd yn bennaf fel llety rheolwyr.

- 4.8 Byddai'r Ddeddf hefyd yn berthnasol i safleoedd defnydd cymysg sy'n cynnwys carafannau preswyl parhaol cyfreithlon a rhai gwyliau. Fodd bynnag, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw safleoedd o'r fath yn y Sir.
- 4.9 Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru). Cafodd y Bil hwn ei gyflwyno gyntaf gan yr Aelod Cynulliad, Darren Millar. Bydd yr ymgynghoriad yn para tan **23 Mai 2014** ac mae'r cyswllt i gyfeiriad y wefan fel y nodir isod: -

<http://www.assemblywales.org/newhome/new-news-fourth-assembly.htm?act=dis&id=252455&ds=1/2014>

- 4.10 Mae'r Bil drafft wedi cael ei gynllunio i ddelio â phryderon ynglŷn â rheoli a rheoleiddio meysydd carafannau gwyliau yng Nghymru gan gynnwys:
- y pwerau sydd ar gael i awdurdodau lleol i fynd i'r afael â byw yn anghyfreithlon mewn carafannau;
  - yr adnoddau sydd ar gael i orfodi amodau gweithredu ar drwyddedau meysydd carafannau gwyliau;
  - priodoldeb pobl sy'n berchen ar feysydd carafannau gwyliau;
  - camdriniaeth rhai perchnogion meysydd carafannau gwyliau o berchnogion carafannau gwyliau ar eu safleoedd; a'r
  - gost o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i'r rhai sy'n defnyddio carafannau gwyliau fel eu prif gartref
- 4.10 Mae swyddogion wedi bod yn rhan o Weithgor Cenedlaethol i edrych ar ddau ddarn o ddeddfwriaeth ac yn llwyr fwriadu cyflwyno sylwadau ar y Bil drafft fel rhan o'r ymgynghoriad. Gall aelodau hefyd gyflwyno eu sylwadau eu hunain yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru neu gysylltu ag Emlyn Jones, Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd i drafod ymateb y Swyddog.
- 4.11 Yn amlwg, mae'r Bil Meysydd Carafannau Gwyliau (Cymru) yn berthnasol iawn i'r math o safleoedd carafannau sydd gan Sir Ddinbych a'r pryderon sydd wedi eu nodi ynglŷn â'u defnydd. Mae un o brif elfennau'r ddeddfwriaeth sy'n dod i'r amlwg, a fydd yn cefnogi'r gwaith y mae Cyngor Sir Ddinbych yn ei wneud i fynd i'r afael â'r berchnogaeth breswyl parhaol mewn carafannau gwyliau, yn ymwneud â phrawf preswyl.
- 4.12 Yn fyr, efallai y bydd deiliad carafán gwyliau yn cael eu gorfodi i ddarparu dogfennau fel, unig neu brif gartref y deiliad at ddibenion treth y Cyngor, cyfeiriad ysgol a fynychir gan blant sy'n byw gyda'r deiliad, cofnod y deiliad yn y rôl etholiadol, cyfeiriad y deiliad ar gyfer gohebiaeth gyda sefydliad ariannol, cyfeiriad y deiliad ar gyfer gohebiaeth gyda darparwr cyfleustodau, cyfeiriad y deiliad ar gyfer

gohebiaeth gyda Chyllid a Thollau ei Mawrhydi a chofrestriad y deiliad gyda meddyg teulu.

- 4.13 Bydd hyn yn ategu a chefnogi unrhyw reolaethau cynllunio a thrwyddedu presennol sy'n bodoli ar safle gwyliau penodol.

### **Polisiâu Cynllunio ac Amodau Safonol**

- 4.14 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod nifer o bolisiau perthnasol a gynhwysir yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd sy'n ceisio rheoli safleoedd sefydlog a theithiol newydd neu estynedig o fewn y Sir ymhellach. Mae'r polisiâu perthnasol ynghlwm fel **Dogfen 1**. Yn ogystal, bwriedir datblygu Canllawiau Atodol a fydd yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth sy'n dod i'r amlwg a grybwyllwyd uchod. Bydd hyn yn cael ei symud ymlaen drwy Raglen Waith i'r Dyfodol y Grŵp Llywio CDLI.
- 4.15 Mae yna hefyd geisiadau cynllunio sydd wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio yn ddiweddar sydd wedi ceisio amrywio rheoliadau cynllunio presennol ar safleoedd carafannau gwyliau. Mae'r ceisiadau wedi ceisio galluogi safleoedd i weithredu dros gyfnod o 12 mis llawn. Dylid nodi bod hyn yn wahanol i safle sy'n ceisio gweithredu fel safle preswyl parhaol. Mae swyddogion wedi ceisio egluro sut mae Llywodraeth Cymru yn ceisio annog twristiaeth drwy gydol y flwyddyn, fodd bynnag, o ystyried y canfyddiad o sut mae rhai safleoedd yn y Sir yn cael eu gweithredu, mae Aelodau wedi bod yn iawn i fod yn amheus dros ganiatáu amrywiadau i reolaethau ar rai safleoedd gwyliau. Dylid nodi, fodd bynnag, er bod Aelodau wedi tynnu sylw at bryderon am feddiannaeth barhaol carafannau gwyliau yn y Sir yn flaenorol, mae Swyddogion yn anaml yn derbyn tystiolaeth gadarn bod hyn yn wir.
- 4.16 Mae enghreifftiau o'r amodau cynllunio safonol mae Swyddogion wedi ceisio eu gosod ar safleoedd gwyliau sy'n ceisio gweithredu dros y cyfnod llawn o 12 mis ynghlwm fel **Dogfen 2**.

### **Prosiect Cyngor Sir Ddinbych**

- 4.17 Fel y soniwyd mae gweithgor o uwch swyddogion wedi bod yn ceisio mynd i'r afael â llawer o'r pryderon a godwyd gan yr Aelodau. Mae'n cael ei gydnabod bod mynd i'r afael â'r broblem meddiannaeth barhaol o garafannau gwyliau yn gymhleth, yn cymryd amser ac adnoddau. Mae'n gofyn am strategaeth gyd-drefnu gan gynnwys cynllunio, trwyddedu, tai, gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau partner eraill. Mae'r strategaeth yn cael ei datblygu gan ystyried y ddeddfwriaeth newydd. Yn y cyfamser, fodd bynnag, mae Swyddogion adrannau cynllunio ac iechyd yr amgylchedd yn cynnal ymweliadau rheolaidd â safleoedd gwyliau. Mae hyn yn cael ei yrru gan adnoddau a bydd yn canolbwyntio ar y safleoedd hynny lle mae tystiolaeth yn cael ei chyflwyno o feddiannaeth barhaol glir. Bydd y rhestr o wybodaeth y deiliad a grybwyllir ym mharagraff 4.12 yn cael ei defnyddio i gasglu

tystiolaeth o achosion o dorri amodau cynllunio a thrwyddedu a'r camau a gymerir wedyn.

- 4.18 Bydd yna oblygiadau dros gymryd camau a fydd yn cynnwys cydweithwyr yn yr adran dai a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r cydweithwyr hynny yn ymwybodol o ddatblygiad y strategaeth a'r ddeddfwriaeth newydd.
- 4.19 Rhagwelir, nawr bod strwythurau staffio yn dod yn rhan o'r Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, bydd y prosiect yn symud ynghynt ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth newydd. Bydd dogfen strategaeth a dull adrodd ar gyfer y safleoedd hynny a archwiliwyd a'r camau a gymerwyd yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Archwilio sydd i ddod.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

